



Gweinyddiaeth Cyfiawnder

Alex Chalk AS

Yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
dros Gyfiawnder



Vicky Ford AS

Yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros
Blant a Theuluoedd

LLYTHYR AGORED AT Y SYSTEM AMDDIFFYN PLANT A CHYFIAWNDER TEULUOL

Dyma ysgrifennu i fynegi ein gwerthfawrogiad llwyr a diffuant o'r ymdrechion anhygoel a wnaethoch i gynnal y system amddiffyn plant a chyfiawnder teuluol drwy gydol pandemig Covid-19. Mae eich ymroddiad wedi sicrhau bod gwasanaethau hanfodol wedi parhau i ddiogelu lles y plant a'r oedolion hynny yn ein cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed drwy gydol cyfnod o argyfwng cenedlaethol.

Mae'r feirws wedi cael effaith ddifrifol a dwys ar fywyd yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cyfyngiadau cymdeithasol a'r rheolaethau iechyd y cyhoedd, sydd mor hanfodol i ddelio â lledaeniad y feirws, wedi rhoi straen enfawr ar bob un ohonom. Amharwyd yn fawr ar waith arferol y gwasanaethau amddiffyn plant a'r llysoedd teulu. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae sefydliadau ac unigolion wedi ymateb yn ystwyth, yn egniol ac yn ymroddgar i sicrhau bod y system cyfiawnder teuluol yn parhau i fod yn agored i'r rhai sydd ei hangen fwyaf.

I'r gweithwyr cymdeithasol, staff awdurdodau lleol a swyddogion Cafcass sydd wedi cynnal y gefnogaeth hanfodol a'r dulliau diogelu ar gyfer plant sy'n fwy agored i niwed oherwydd yr amgylchiadau presennol; i'r staff amlasiantaethol, sy'n cynnwys swyddogion yr heddlu, athrawon a gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sy'n chwarae rhan hollbwysig yn canfod pryderon, yn rhannu gwybodaeth ac yn cymryd camau ar unwaith; i staff y llysoedd, gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith, ynadon a barnwyr sydd wedi ymateb yn mor fedrus, gan arloesi a sicrhau bod y llysoedd ar gael i bobl sydd â'r anghenion mwyaf brys – diolch yn fawr.

Gwyddom fod heriau enbyd o fewn y system, ac mae'r llwybr at adferiad llwyr yn debygol o fod yn un hir. Fel cyd-gadeiryddion y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag arweinwyr cenedlaethol y system i ganfod pa heriau y dylid eu blaenoriaethu a mynd i'r afael â hwy ar unwaith, ac i gytuno ar gynllun wedi'i dargedu i ymateb ymhellach i'r heriau hynny. Er mai'r hyn sy'n angenrheidiol yw cytuno beth sydd raid ei wneud nawr er mwyn cynnal a sefydlogi ein gwasanaethau hanfodol, rydyn ni wedi parhau i ganolbwyntio ar y cyfleoedd i ddiwygio yn y tymor canolig er mwyn gwella rhagor ar y system a mynd i'r afael ag anawsterau a oedd yn bodoli yn flaenorol. Byddwn yn gweithio drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i roi'r blaenoriaethau hyn ar waith ar unwaith.

Yn gywir,

ALEX CHALK AS

VICKY FORD AS